| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 15 Ionawr 2014 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 - 2017 Drafft |
| **AWDUR** | Debbie Anne Williams Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir.<br><br>Pwrpas yr adroddiad yw ceisio barn yr aelodau ar ddrafft o Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r aelodau:<br><br>- gyflwyno eu sylwadau ar y canlynol yn y Strategaeth ddrafft:<br>• Meysydd Strategol<br>• Canlyniadau<br>• Dangosyddion<br>• Gweithredoedd Strategol<br><br>- gyflwyno unrhyw sylwadau cyffredinol eraill i sylw'r ymgynghorydd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014. |
| | |
| **AELOD CABINET** | Ioan Thomas |

## 1. CEFNDIR

1.1 Hunaniaith sydd yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

1.2 Deillia rhaglen waith hunaniaith o 2 le:

- Cynllun Grant Llywodraeth Cymru
- Cynllun Strategol y Cyngor

1.3 Un o ymrwymiadau o fewn rhaglen waith hunaniaith ar gyfer 2013/14, ac a gyllidir drwy grant gan Lywodraeth Cymru, yw llunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 a Chynllun Gweithredu Drafft.

1.4 Yn ystod haf 2013, lluniwyd briff ar gyfer comisiynu ymgynghorydd i lunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 a Chynllun Gweithredu Drafft ar ran hunaniaith. Yn sgil y broses dendro, penodwyd ymgynghorydd i gychwyn ar y gwaith ym Medi 2013.

## 2. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-2017 DRAFFT

2.1 Seilir y Strategaeth ddrafft sydd gerbron ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011, ynghyd â data a thystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn sgil trafodaethau niferus a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf rhwng yr ymgynghorydd a buddeiliaid allweddol; yn unigolion, mudiadau, grwpiau a sefydliadau.

2.2 Ar sail yr uchod, adnabu'r ymgynghorydd ar y cyd â hunaniaith 6 maes strategol i'w cynnwys yn y ddogfen ddrafft, sef:

- Y Teulu
- Plant a Phobl Ifanc
- Cymunedau
- Darparu Gwasanaethau Cymraeg
- Y Gweithle
- Y Seilwaith

2.3 Y mae'r meysydd strategol hyn yn manylu ar y math o ganlyniadau y dymuna hunaniaith eu gwireddu ar gyfer yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd, rhai dangosyddion y byddai modd eu mesur yn ystod y cyfnod, ynghyd â chynigion o weithredu strategol y byddai modd eu cyflawni er mwyn gwireddu'r canlyniadau ymhob maes.

2.4 Mae'r Pwyllgor Iaith yn meddu ar ddyletswydd i gyflawni rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir. O ganlyniad, pwrpas cyflwyno'r Strategaeth ddrafft gerbron y Pwyllgor Iaith yw ceisio barn yr aelodau ar yr uchod. Bydd hyn yn galluogi hunaniaith a'r ymgynghorydd i ystyried ac ymgorffori sylwadau'r aelodau cyn cyhoeddi'r ddogfen ddrafft terfynol i bwrpas ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014.

2.5 Fel rhan o'r trefniadau ymgynghori ar y ddogfen ddrafft terfynol ddiwedd Ionawr 2014, bydd cyfle pellach i'r aelodau gyflwyno eu sylwadau cyffredinol yn unigol i sylw'r ymgynghorydd.

## 3. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno eu sylwadau ar y canlynol yn y Strategaeth ddrafft:
    - Meysydd Strategol

- Canlyniadau
- Dangosyddion
- Gweithredoedd Strategol

- gyflwyno unrhyw sylwadau cyffredinol eraill i sylw'r ymgynghorydd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ddiwedd Ionawr 2014.